



POLISI PREIFATRWYDD

Mae'n angenrheidiol bod Cymryd Rhan yn gallu cadw gwybodaeth amdanoch chi a fydd yn ein helpu i'ch cefnogi chi yn y ffordd orau posib. Bydd y wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi i ni yn ein helpu i wneud ein gwaith gan roi'r cyfle i ni roi gwybod i chi am unrhyw newidiadau y byddwn am wneud gyda chi, ac yn ein galluogi i gymharu eich gwybodaeth dros amser i weld ein bod yn eich cefnogi ac yn ymateb i chi yn y ffordd gywir.

Mae Cymryd Rhan yn addo i amddiffyn a pharchu eich preifatrwydd fel y nodir yn ein Polisi Preifatrwydd. Mae ein Polisi Preifatrwydd yn ymwneud â'n cymorth, gofal a chynlluniau busnes, ein systemau meddalwedd gwybodaeth sy'n cynnal data dinasyddion a staff, ein gwefan, ein harolygon ar Lyme Survey, ein defnydd o negeseuon e-bost a negeseuon testun ar gyfer cyfathrebu, ac unrhyw ffyrdd eraill rydym yn casglu gwybodaeth. Mae'n cynnwys sut rydym yn prosesu unrhyw wybodaeth bersonol rydych yn ei roi i ni, ac yn nodi ein bod yn ymroddedig i'w gadw'n ddiogel a'i rheoli yn unol â'r Ddeddf Gwarchod Data 2018.

Darllenwch y Polisi Preifatrwydd yma'n ofalus. Rydym yn ymwybodol ei fod yn hir, ond mae'n cynnwys gwybodaeth bwysig am sut rydym yn gwarchod, yn defnyddio ac yn prosesu unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch chi'n ei rhoi i ni. Ein nod yw bod yn glir pan fyddwn yn casglu eich data ac i beidio gwneud dim byd na fyddai'n rhesymol i chi ddisgwyl i ni gwneud.

PA WYBODAETH YDYN NI'N CASGLU?

Rydym am roi gwybod i chi'n gyntaf pa wybodaeth bersonol rydyn ni'n casglu, a sut rydyn ni'n ei gasglu pan fyddwch chi'n cysylltu â Cymryd Rhan, ei staff neu gynrychiolwyr. Mae'r wybodaeth rydyn ni'n casglu wedi'i nodi isod:

- Enw
- Cyfeiriad post
- Cyfeiriad e-bost
- Rhif ffôn
- Cenedligrwydd
- Oed
- Anghenion Gofal
- Anghenion busnes
- Gwybodaeth ariannol
- Gwybodaeth Deuluol a Phroffesiynol
- Gwybodaeth iechyd
- Troseddu troseddol

Ym mhob achos, pan yn briodol, efallai byddwn hefyd yn casglu ychydig o wybodaeth am eich diddordebau a'ch dewisiadau er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn eich cefnogi chi yn y ffordd fwyaf perthnasol. **Mae sut rydyn ni'n defnyddio ac yn prosesu eich gwybodaeth wedi'i nodi isod.**

Mai 2018



Gwybodaeth Plant

Er ein bod yn darparu cymorth i wasanaethau plant, **nid** ydym yn cadw gwybodaeth bersonol am blant.

PAN FYDDWN YN CASGLU EICH GWYBODAETH

Mae nifer o achosion pan mae'n bosib y byddwn yn casglu gwybodaeth oddi wrthych chi. Mae'r rhain yn cynnwys :

- Pan fyddwn yn derbyn atgyfeiriad oddi wrthych chi (neu barti arall gyda'ch caniatâd) i gael gwasanaeth gan Cymryd Rhan
- Pan fyddwch chi'n rhoi unrhyw wybodaeth i ni yn ystod asesiad neu adolygiad cychwynnol, neu ar ein gwefan, yn ysgrifenedig, wyneb yn wyneb, trwy sgwrsio â ni ar gyfryngau cymdeithasol neu dros y ffôn. **Nid ydym yn recordio galwadau ffôn**
- Pan fyddwch yn cofrestru diddordeb neu'n ymgeisio am swydd wag neu gyfle i wirfoddoli gyda Cymryd Rhan.
- Pan fyddwch yn gofyn am wybodaeth neu gymorth gennym ni, neu os ydych yn cwyno neu'n rhoi canmoliaeth i ni
- Pan fyddwch yn rhoi eich manylion ariannol i ni i'w ddefnyddio gan ein hadran cyflogau, cymorth gyda'ch cyllideb, cynllunio busnes a cheisiadau grant neu fudd-daliadau.
- Pan fyddwn yn cael gwybodaeth gan drydydd parti, pan fyddwn angen rhagor o wybodaeth ddiweddar gennych chi, neu pan fyddwn yn cynnal dadansoddiad ystadegol neu waith ymchwil. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth gan reolwr gofal, gweithiwr proffesiynol iechyd, comisinydd neu reoleiddiwr cytundeb.

SUT RYDYN NI'N CASGLU EICH GWYBODAETH

Rydyn ni'n casglu gwybodaeth yn y dulliau canlynol:

- Pan fyddwch yn ei rhoi'n UNIONGYRCHOL i ni

Efallai byddwch yn rhoi eich gwybodaeth i ni er mwyn i ni eich cefnogi chi, er dibenion cyflogaeth ac ar gyfer gwaith gwirfoddoli. Ar adegau, byddwch hefyd yn adrodd eich stori i ni a'r pethau sy'n digwydd yn eich bywyd fel ein bod yn gallu dod o hyd i'r cymorth a fydd yn eich cefnogi chi orau, yn rhoi rhodd, yn prynu ein gwasanaethau'n uniongyrchol neu'n cyfathrebu gyda ni. Ambell waith, pan fyddwn ni'n eich cefnogi chi, bydd eich gwybodaeth yn cael ei gasglu gan Cymryd Rhan ac yn cael ei rhannu gyda phartneriaid cytundebol a rheoleiddwyr, a byddwn yn rhoi gwybod i chi bob tro os ydyn ni'n gorfod rhannu'r data hwn ac yn gofyn i chi am eich caniatad. Rydyn ni'n gyfrifol am eich data ar bob adeg.

- Pan fyddwch yn ei rhoi'n ANUNIONGYRCHOL i ni

Efallai bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda ni gan sefydliad arall sy'n eich cefnogi chi a byddant hwy ynghyd â'u polisi preifatrwydd yn gofyn am eich caniatad cyn y byddan nhw'n cysylltu â ni ar eich rhan. Dylech wirio eu Polisi Preifatrwydd hwy pan fyddwch yn rhoi eich gwybodaeth er mwyn i chi ddeall yn llawn sut y byddan nhw'n prosesu eich data.

Mai 2018



- Pan fyddwch yn rhoi caniatad i SEFYDLIADAU ERAILL ei rhannu neu pan fydd ar gael yn gyhoeddus

Efallai byddwn yn cyfuno gwybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi i ni gyda gwybodaeth sydd ar gael o ffynonellau allanol er mwyn cael gwell dealltwriaeth am sut y dylwn eich cefnogi ac i wella ein gwasanaethau. Hefyd o dan y Ddeddf Llesiant 2016 efallai byddwn angen y wybodaeth hon i ddeall rhagor am yr "hyn sy'n bwysig" i chi.

Gallai'r wybodaeth ddod o'r ffynonellau canlynol:

Cyfyngau Cymdeithasol

Yn dibynnu ar eich gosodiadau neu bolisiâu preifatrwydd ar gyfer cyfyngau cymdeithasol a gwasanaethau anfon negeseuon megis Facebook, WhatsApp neu Twitter, gallech roi caniatad i ni gael gwybodaeth o'r cyfrifon neu wasanaethau hynny.

Gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus

Gallai hyn gynnwys gwybodaeth sydd ar gael yn Companies House a gwybodaeth sydd wedi cael ei chyhoeddi mewn erthyglau / papurau newydd neu'r Comisiwn Elusennau. Efallai byddwn hefyd yn cael gwybodaeth amdanoch o'r system Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y system Addysgu a gan gwmnïau eraill.

SUT RYDYN NI'N CADW EICH GWYBODAETH YN DDIOGEL

Rydyn ni wedi bod yn cadw gwybodaeth sensitif am y bobl rydyn ni'n cefnogi a'n tîm staff am dros 32 o flynyddoedd, ac rydyn ni'n gwneud ein gorau glas i gadw eich holl wybodaeth chi'n ddiogel. Rydyn ni wedi buddsoddi yn yr adnoddau priodol i amddiffyn eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei golli, ei gamddefnyddio, rhag mynediad heb ei awdurdodi, rhag cael ei ddiwygio na'i ddatgelu. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr ein bod yn rheoli yn unol â'n cyfrifoldebau cyfreithiol o dan y cyfreithiau diogelu data perthnasol. Fodd bynnag, nid yw unrhyw safle sydd ar y rhynggrwyd, yn cynnwys e-bost 100 y cant yn ddiogel, felly nid ydym yn atebol am unrhyw fynediad sydd heb ei awdurdodi neu anfwriadol sydd y tu hwnt i'n rheolaeth. Mae'r partneriaid rydyn ni'n defnyddio i ddarparu'r systemau hyn wedi'u hachredu ac maen nhw'n diwallu'r gofynion o dan GDPR, ISO a Cyber Essentials.

SUT Y BYDDWN NI'N PROSESU EICH GWYBODAETH CHI

Ar ôl i ni dderbyn eich gwybodaeth, mae yna amryw o ddulliau y gallwn ni ddefnyddio er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r gwasanaeth gorau i chi. Mae'r rhain yn cynnwys:

Darparu gwasanaethau a phrosesu gwybodaeth yn fewnol

- Gosod a rheoli eich manylion pan fyddwch yn cytuno y byddwn yn eich cefnogi chi neu pan fyddwn yn eich cyflogi chi.
- Cysylltu â chi (neu'n cael gafael arnoch drwy eich perthynas agosaf neu reolwr gofal, ymarferydd meddygol, gwasanaeth olrhain data neu gyswllt arall)
- Cadarnhau, diweddarau a gwella ein cofnodion i wneud yn siŵr bod y wybodaeth gywir gennym ni

Mai 2018



- Prosesu gwiriadau DBS a dilysu fel y manylir yn y Ddeddf Rheoleiddio ac Archwiliad Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2017 yn cynnwys cofnodion hyfforddi a gwybodaeth ariannol, cyflogres a dibenion HMRC.
- Datrys a chywiro problemau gyda'r system electronig rheoli cleientiaid, system electronig Adnoddau Dynol neu wefan, yn cynnwys achosion pan fyddwn am wella eich profiad fel defnyddiwr.

Rheoli a gwella ein perthynas gyda dinasyddion, staff a gweithwyr proffesiynol

- Rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau i wasanaethau, newyddion am Cymryd Rhan a dulliau eraill y gallwch chi ein helpu ni i wella'r cymorth rydyn ni'n darparu. Byddwn yn defnyddio eich data er mwyn teilwra a gwella ein cyfathrebu fel ei fod yn berthnasol i chi;
- Cysylltu â chi am unrhyw ddigwyddiadau codi arian a sut y gallwch chi eu cefnogi hwy
- Sicrhau bod eich cyfathrebu'n amserol ac yn berthnasol, fel eich bod yn derbyn dim ond y wybodaeth ry'ch chi ei angen. Byddwn yn dadansoddi data o'n cronfa ddata fel y gallwn ddeall yn well sut i gefnogi ac ymateb i chi. Er enghraifft, efallai gwnawn edrych yn fanwl ar faes o gymorth a ddarparwyd i chi a phobl eraill ac o hynny sylweddoli y gallwn ei ddarparu'n well a byddwn yn cysylltu â chi am hyn. Gallai hyn gynnwys adolygu cynlluniau gofal, lefel y cymorth, adolygu amcanion cynllunio busnes a newidiadau mewn angen. Bydd y gweithgaredd yma'n ein helpu ni i ddeall cefndir y bobl rydyn ni'n eu cefnogi ac yn ein helpu i wneud ceisiadau priodol i bartion eraill megis gweithwyr iechyd proffesiynol, rheolwyr gofal, comisiynwyr a rheoleiddwyr a fydd â'r modd i helpu gwella eich cymorth a phrofiad o gael gwasanaethau gan Cymryd Rhan. Efallai byddwch yn dewis i optio allan o'r trefniant yma ac i beidio cytuno i ni ddefnyddio eich data, gallwch wneud hynny trwy ein ffonio ar 01597 828050 neu drwy anfon e-bost at info@cymryd-rhan.org
- Efallai bydd yn ofynnol yn gyfreithiol i ni ofyn i chi am y ffordd orau i'ch cefnogi chi, yn angenrheidiol yn gytundebol neu o ddiddordeb hanfodol i ni. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn.
- Yn eich gwahodd i fod yn rhan o arolygon, ymgyrchoedd neu waith ymchwil (un ai'n fewnol neu gan gwmni arall) Cymryd Rhan, i ddarganfod rhagor am ddemograffeg, diddordebau ac ymddygiad y bobl rydyn ni'n cefnogi neu'n cyflogi.
- Lle rydych wedi cytuno i dderbyn negeseuon e-bost neu SMS oddi wrthym ni, efallai y byddwn yn rhoi eich cyfeiriad e-bost neu rif ffôn symudol i bartneriaid cymeradwy a diogel eraill gyda'ch caniatad ac er eich budd chi. Rydym yn defnyddio dulliau megis Facebook, Instagram, Twitter, neu YouTube, neu rwydweithiau hysbysebu digidol sy'n darparu gwasanaethau i ni trwy arddangos ein hysbysebion i chi ar y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol hynny a gwefannau eraill, ynghyd ag adnabod cynulleidfaoedd sydd â diddordebau tebyg i'ch rhai chi. Gallwch optio allan o'r defnydd hwn o'ch data er mwyn arddangos hysbysebion trwy gysylltu â ni ar 01597 828050 neu drwy anfon neges e-bost at info@cymryd-rhan.org.

Ymateb i unrhyw ymholiadau neu broblemau

- Byddwn yn ymateb i unrhyw ymholiadau, cwynion neu ganmoliaeth o fewn 24 awr o ddiwrnod gwaith neu'r diwrnod gwaith nesaf.



Cynnal hyfforddiant ac adolygiad o'n gwasanaeth

- Gwella neu adolygu'r gwasanaeth rydyn ni'n darparu i chi, a diwallu anghenion hyfforddiant y byddwn ni'n dewis trwy ddatblygiad personol neu ofynion gorfodol
- Cynnal dadansoddiad ystadegol a gwaith ymchwil yn defnyddio, lle'n bosibl, data di-enw.

Cwrdd â'n rhwymedigaethau cyfreithiol

- Defnyddio gwybodaeth er dibenion archwilio neu reoli risg.
- Os oes gennym rwymedigaeth gyfreithiol i ddefnyddio neu ddatgelu gwybodaeth amdanoch er enghraifft, pan fyddwn yn cael ein gorchymyn gan lys neu awdurdod rheoleiddio neu os oes rhaid i ni gynnal gwybodaeth yn gyfreithiol er dibenion cyfrifo/treth, diogelu neu achosion troseddol.

Arall

- Pan fyddwn yn eich ystyried chi ar gyfer swydd bosib neu gyfleoedd gwirfoddoli lle byddwch yn llenwi ffurflen gais;
- Trosglwyddo gwybodaeth i unrhyw gorff a allai gael yr hawliau ynom (er enghraifft, o ganlyniad i gyfuniad neu TUPE);
- Ar gyfer unrhyw ddibenion eraill y byddwch chi'n cytuno iddynt.
- Mae'n ofynnol o dan ein rhwymedigaethau cytundebol i ddarparu gwybodaeth amdanoch mewn perthynas â'n perfformiad a chydymffurfiaeth.

Diddordebau Cyfreithlon

Mewn rhai achosion, efallai byddwn yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol lle mae hyn yn angenrheidiol ar gyfer ein diddordebau cyfreithlon ein hunain (neu drydydd parti) megis:

- Eich dewisiadau (gweler yr adran **Sut y byddwn ni'n Cyfathrebu gyda Chi** isod);
- Anfon deunyddiau atoch yn y post neu gysylltu â chi dros y ffôn am wybodaeth ynglŷn â'ch cymorth a'ch ceisiadau (yn ddibynnol ar wirio'r ffordd ry'ch chi am i ni gysylltu â chi);
- Cynnal gwaith ymchwil i ddeall yn well pwy yw ein dinasyddion a thargedu ein gweithgareddau codi arian, cymdeithasol a chymorth yn well;
- Monitro sut rydym yn delio gydag amddiffyn ein elusen yn erbyn twyll, gwyngalchu arian a risgiau eraill;
- Cynnal a gweinyddu ein cofrestr, cronfeydd data a systemau staff, dinasyddion a gweithwyr proffesiynol.

Ym mhob achos, rydym yn cydbwysu ein diddordebau cyfreithlon yn erbyn eich hawliau chi fel unigolyn ac yn gwneud yn siwr ein bod yn defnyddio gwybodaeth bersonol mewn ffordd neu at y dibenion y byddech chi'n eu disgwyl i fod yn rhesymol yn unig yn unol â'r Polisi Preifatrwydd hwn ac nad yw'n amharu ar eich preifatrwydd neu yn erbyn y dewisiadau rydych chi wedi son amdanynt yn y gorffennol.

Mai 2018



Prosesu eich data personol sensitif

Byddwn yn prosesu rhywfaint o'ch data personol sensitif y byddwch chi'n ei ddarparu (e.e. gwybodaeth am eich iechyd, lefelau o ofal a gwybodaeth ariannol) pan fyddwch yn rhoi eich caniatad i ni wneud hynny, fel y nodir ar ffurflenni cais, neu pan fyddwch wedi gwneud y wybodaeth honno i bob pwrpas yn gyhoeddus. Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i roi'r cymorth cywir i chi, yn y ffordd gywir ac ar yr adeg gywir.

BYDDWN YN CADW EICH GWYBODAETH YN DDIOGEL A PHWY FYDD YN CAEL MYNEDIAD ATO

Rydym am i chi wybod na fyddwn byth yn gwerthu nac yn anfon eich gwybodaeth personol ymlaen at drydydd parti ar gyfer eu dibenion marchnata eu hunain. Efallai bydd angen i ni rannu gwybodaeth personol gyda rhai trydydd partion er mwyn ein helpu ni i ddarparu gwasanaethau i chi yn cynnwys y canlynol:

- Cyrff* sy'n gysylltiedig â Cymryd Rhan*, megis darparwr meddalwedd TG cymeradwy ac wedi'i gomisyneu
- Unrhyw gyrrff a allai, neu sydd yn prynu unrhyw hawliau ynom ni drwy gyfuniad, prynu neu ad-drefnu
- Ein ymgynghorwyr, er mwyn ein helpu i reoli, cefnogi neu ddatblygu ein sefydliad yn well ac i gydymffurfio gyda rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddio
- Unrhyw ddarparwyr gwasanaeth sydd angen cael gwybodaeth benodol er mwyn darparu cymorth i chi (neu ni) megis awdurdodau lleol ac Arolygiaeth Gofal Cymru
- Ein partneriaid, yn cynnwys, er enghraifft, trefnwyr digwyddiadau rydyn ni'n gweithio gyda hwy; darparwyr cymorth eraill lle defnyddir cymorth a gofal wedi'i gydlynu.
- Cyrff gorfodi'r gyfraith a/neu gyrrff rheoleiddio, er mwyn cydymffurfio gydag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol neu orchymyn llys.

Rydyn ni'n defnyddio cwmnïau allanol i ddarparu'r dechnoleg sydd ei angen arnom i gasglu a chadw eich data. Fodd bynnag, byddwn yn cynnal gwiriadau cynhwysfawr ar y cwmnïau hyn cyn y byddwn yn gweithio gyda hwy ac yn rhoi cytundeb yn ei le i roi manylion ein gofynion, yn enwedig am sut y byddan nhw'n rheoli'r data sydd ganddyn nhw fynediad ato.

O dan ein hanghenion cytundebol efallai byddwn yn rhannu data di-enw amdanoch chi gyda sefydliadau sy'n gwneud gweithgareddau ymchwil i helpu gwella canlyniadau iechyd ar gyfer cleifion ond, gan fod y wybodaeth yma'n ddi-enw, ni fydd y sefydliadau hyn yn gallu adnabod bod y wybodaeth yma'n ymwneud â chi.

SUT BYDDWN NI'N CYFATHREBU Â CHI

Gallwch ddewis i beidio â derbyn gohebiaeth marchnata a chodi arian (gweler isod) ond byddwn wastad yn cysylltu â chi ynglŷn â'ch statws fel rhywun a allai dderbyn y wybodaeth hon. Unwaith y bydd y wybodaeth wedi cael ei rhoi ar y gronfa ddata, bydd y wybodaeth yn aros ar y gronfa ddata tan nad ydych yn cael eich cefnogi gennym mwyach (oni bai eich bod yn gofyn i ni dynnu eich enw oddi ar y gronfa, gallwch wneud hyn trwy gysylltu â Nick Evans ar 01597 828050 neu drwy anfon e-bost at info@cymryd-rhan.org). Yn gyfreithiol, mae'n rhaid i ni hefyd gadw rhywfaint o wybodaeth wedi'i archifo'n ddiogel am gyfnod o amser a byddwn yn adolygu'r wybodaeth hon o fewn yr amserlenni priodol neu ar gais yr unigolyn.

Mai 2018



GOHEBIAETH MARCHNATA A CHODI ARIAN

Fel elusen mae rhai o'n gwasanaethau angen marchnata eu gwasanaeth megis y Tim Cymorth Busnes Gofal Plant neu i godi arian. Pan fyddwch yn cytuno i'n cyswllt cyntaf, byddwn yn gofyn am eich caniatad i gysylltu â chi fel ein bod yn gallu rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig, gwybodaeth am ymgyrchoedd y gallwch gyfrannu atynt, dulliau i gefnogi'r sefydliad yn ariannol, storïau gan bobl rydyn ni'n eu cefnogi a'u teuluoedd, a'r newyddion eraill ry'n ni'n meddwl y byddech chi â diddordeb ynddynt. Eich dewis chi fydd hi bob tro os ydych chi am dderbyn gwybodaeth am ein gwaith, sut rydym yn codi arian a'r ffordd y gallwch chi gyfrannu.

Gallwch ddiweddarau eich dewis am sut rydym yn cysylltu â chi neu gallwch ofyn i ni beidio â chysylltu â chi gyda'r gohebiaeth yma ar unrhyw bryd (yn cynnwys nad ydych am i ni gysylltu â chi at ddibenion marchnata dros y ffôn neu drwy'r post) trwy gysylltu â ni (gweler yr adran **Cysylltu â Ni** isod). Ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata os ydych wedi dweud nad ydych am i ni gysylltu â chi i'r pwrpas hwn. Fodd bynnag, byddwn yn cadw eich manylion ar restr wrth gefn i'n helpu i wneud yn siwr na fyddwn yn parhau i gysylltu â chi.

Oni bai eich bod yn dewis i glywed rhagor oddi wrthym ni, mae ein gohebiaeth gyda dinasyddion, staff, teuluoedd, dysgwyr, lleoliadau a gweithwyr proffesiynol yn dueddol o fod ar amserlen briodol fel nad ydym yn tarfu'n ormodol arnoch. Ni fyddwn byth yn rhoi eich gwybodaeth i gwmnïau eraill nac i elusennau eraill er dibenion marchnata. Efallai byddwn yn defnyddio gwasanaethau olrhain trydydd partion a ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus er mwyn gwneud yn siwr bod eich gwybodaeth yn ddiweddar ac er mwyn cadw mewn cysylltiad.

SUT Y BYDDWN YN CADW EICH GWYBODAETH

Bydd y wybodaeth y byddwch yn darparu yn cael ei gadw gennym yn unol â chyfreithiau perthnasol. Byddwn yn cymryd camau rhesymol i ddinistrio neu sicrhau na ellir adnabod gwybodaeth bersonol sy'n cael ei gadw gennym ni os nad oes ei angen mwyach at y diben(ion) y cafodd ei gasglu a/neu ei brosesu.

Fodd bynnag, os ydych yn dewis i rannu eich gwybodaeth gyda ni yn gyhoeddus (er enghraifft, lluniau neu ffilm ar gyfryngau cymdeithasol), yna mae'n bosibl y bydd pobl eraill wedi copio'r wybodaeth hon yn ystod y cyfnod yr oedd yn fyw, ac felly y mae tu hwnt i'n rheolaeth ni.

YMWELD Â GWEFANNAU TRYDYDD PARTI

Mae'r wefan hon yn cynnwys dolenni a gwefannau eraill rydyn ni'n meddwl y byddant o ddiddordeb i chi. Mae'r Polisi Preifatrwydd yma'n berthnasol i'n gwefan ni'n unig, felly os byddwch yn cysylltu â gwefan arall, hoffwn argymhell eich bod yn darllen polisi preifatrwydd y wefan honno cyn rhannu unrhyw ddata personol neu ariannol.

BETH YW EICH HAWLIAU

Rydyn ni am wneud yn siwr eich bod yn gallu rheoli sut rydyn ni'n defnyddio ac yn cadw eich gwybodaeth.

Mae gennych yr hawl i:

Mai 2018



Cymryd Rhan
'taking part'

WELLFIELD HOUSE,
TEMPLE STREET,
LLANDRINDOD WELLS,
POWYS. LD1 5HG
Tel/Ffôn: (01597) 828050
Fax/Ffacs: (01597) 828059

- Gael gwybod sut y bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio;
- Gofyn am gopi o'r wybodaeth rydyn ni'n cadw amdanoch;
- Diweddarau neu ddiwygio'r wybodaeth rydyn ni'n cadw amdanoch chi os yw'n anghywir;
- Newid eich dewisiadau am sut rydyn ni'n gohebu a chyfathrebu gyda chi ar unrhyw bryd;
- Gofyn i ni gyfyngu prosesu eich gwybodaeth bersonol os oes anghytundeb am ei gywirdeb neu ei ddefnydd cyfreithiol;
- Gofyn i ni gael gwared o'ch gwybodaeth bersonol o'n cofnodion;
- Gofyn i ni anfon copi electronig o'ch gwybodaeth bersonol atoch chi, neu sefydliad arall;
- Gwrthwynebu prosesu eich gwybodaeth at ddibenion marchnata ar sail diddordeb cyfreithiol neu ddibenion ystadegol;
- Gofyn i ni ymyrru neu herio unrhyw benderfyniadau a gymerwyd gennym drwy brosesau awtomataidd mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol; neu
- Codi pryder neu gŵyn am y ffordd mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio.

Os ydych am wybod rhagor am yr hawliau hyn, neu os ydych am gael copi o'r wybodaeth rydyn ni'n cadw amdanoch chi, cysylltwch â'r Prosesydd Gwarchod Data:

Nick Evans

Ty Wellfield

Stryd y Deml,

Llandrindod, Powys. LD1 5HG

E-bost: nick.evans@cymryd-rhan.org

Neu gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn <https://ico.org.uk/for-the-public/>

SUT GALLWCH CHI GYSYLLTU Â NI A DOD O HYD I DDIWEDDARIADAU I'R POLISI HWN

Mae 'Ni' yn cyfeirio at yr elusen Cymryd Rhan (rhif 1961994 yng Nghymru a Lloegr) a chwmni cyfyngedig trwy warant (cwmni rhif 517090).

Cyfeiriad cofrestredig:"

Tŷ Wellfield
Stryd y Deml
Llandrindod
Powys
LD1 5HG

**Rydym wedi cofrestru gyda Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DG fel rheolwr.

Mai 2018



Cymryd Rhan
'taking part'

WELLFIELD HOUSE,
TEMPLE STREET,
LLANDRINDOD WELLS,
POWYS. LD1 5HG
Tel/Ffôn: (01597) 828050
Fax/Ffacs: (01597) 828059

Mai 2018

Wellfield House, Temple Street, Llandrindod Wells, Powys, LD1 5HG
Company Registered in Wales No/Cwmni a Gofrestrwyd yng Nghymru Rhif: 1961994 Charity No/Rhif Elusen: 517090
E-mail /E-bost: info@cymryd-rhan.org
www.cymryd-rhan.org

Registered with The Care Inspectorate for Wales / Cofrestrwyd gydag Arolygiaeth Gofal Cymru